## ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO

### BIDIAU REFENIW REFENIW UN-TRO 2022/23

| | Teitl y Bid | Manylion y Bid | Swm a Argymhellir (£) |
|---|---|---|---|
| **ADDYSG** | | | |
| Un tro 1 | Swyddog Hybu Cinio am Ddim | Ariannu swyddog i annog rhieni i hawlio prydau ysgol am ddim ac i annog mwy o ddisgyblion cymwys i dderbyn y pryd yn yr ysgol. Ym mis Gorffennaf a Medi 2021, 60% o’r disgyblion oedd yn gymwys i ginio am ddim a gymrodd fwyd yn yr ysgol.<br><br>Cost y swydd fyddai £32,920 gyda £10k tuag at adnoddau hyrwyddo hawlio prydau ysgol am ddim. | 42,920 |
| **PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD** | | | |
| Un tro 2 | 3 swydd Gweithwyr Gofal Cymdeithasol a 4 swydd Gweithwyr Cymdeithasol (Tim ôl 16) | Bid refeniw parhaol am yr un swm hefyd wedi ei gyflwyno gan yr Adran, petai'r cais parhaol yn aflwyddiannus yna gofynnir i'r Cabinet ystyried ariannu'r cais ar sail un tro. | 100,000 |
| Un tro 3 | Cefnogi Pobl | Grŵp Tasg a Gorffen y Bwrdd Cefnogi Pobl wedi adnabod fod angen buddsoddi i'r isod:<br><br>Tlodi<br>Newidiadau i daliadau Credyd Cynhwysol yn effeithio ar 9,600 o gartrefi yng Ngwynedd, gyda dros eu hanner yn deuluoedd gyda phlant. Rhai materion yn cynnwys nad yw'r Gwasanaeth Cyngor Ariannol yn gallu ymdopi gyda’r galw presennol. Nifer o ddefnyddwyr banciau bwyd yn cynyddu. A phrisiau tanwydd yn cynyddu ac yn cael yr effaith fwyaf ar deuluoedd incwm isel, a chartrefi ar gyflenwad pre-payment.<br><br>Bid ar gyfer Cydlynydd Tlodi a dau Swyddog Uchafu Incwm a Chynhwysiad.<br><br>Model Pen Blaen / Drysau Ffrynt<br>Cais am Swyddog Cefnogol i sefydlu trefniadau cydweithio ar draws y 4 adran i edrych ar drefniadau gweithio, trefniadau cyfeirio, cytuno ar raglen hyfforddiant “What Matters” ac ati er mwyn cysoni diwylliant ac ymarfer delio gyda chwsmer ar draws y drysau ffrynt. | 350,000 |

## ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO

| | | | |
|---|---|---|---|
| **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | | |
| Un tro 4 | Cryfhau Timau Adnodd Cymunedol (TAC) - Gweithwyr Cymdeithasol / Ymarferwyr Gofal | Mae cynnydd wedi bod yn y galw am gefnogaeth TAC ers dechrau'r pandemig sydd wedi rhoi pwysau aruthrol ar wasanaethau a staff.<br><br>Nid ydym yn gallu cefnogi unigolion yn amserol gyda 130 o unigolion ar restr aros am asesiad, 380 unigolyn yn aros am adolygiad o gynllun gofal a chefnogaeth a 99 unigolyn yn aros am gefnogaeth gofal cartref a nifer fawr o unigolion yn methu dychwelyd adref o'r Ysbyty yn amserol ar yr 20fed Medi 2021.<br><br>Mae elfen o'r bid yn angenrheidiol i gwrdd â chyfrifoldebau statudol y gwasanaeth yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. A bydd y gyllideb yn ein galluogi i benodi 5 swydd Gwaith Cymdeithasol, ac yn sicrhau yr arbenigedd angenrheidiol o fewn y gwasanaeth er mwyn cwrdd ag anghenion trigolion Gwynedd. | 250,000 |
| Un tro 5 | Cydlynydd Trosglwyddo (cais ar y cyd gyda'r Adran Plant) | Swydd ar gyfer gwella'r cydweithio rhwng y ddau adran wrth i blant drosglwyddo i'r Adran Oedolion. | 47,420 |
| Un tro 6 | Sicrwydd Ansawdd | Mae angen cryfhau'r capasiti o ran cynnal archwiliadau ar ddarparwyr gofal o fewn y Sir. Mae 2.5 Swyddog Sicrwydd Ansawdd yn yr Adran ar hyn o bryd ac nid oes capasiti ganddynt i archwilio'r holl ddarpariaeth allanol (h.y. gofal preswyl, gofal nyrsio, llety cefnogol, gofal dydd a darparwyr gofal cartref) a hefyd ein holl ddarpariaeth fewnol.<br><br>Mae'r Adran wedi symud adnodd dros dro o'r Uned Gontractau er mwyn cynyddu capasiti y gwaith archwilio. | 48,930 |
| **TAI AC EIDDO** | | | |
| Un tro 7 | Cynyddu capasiti Uned Digartrefedd Atebion Tai | Creu 4 swydd ychwanegol i'r Uned Atebion Tai er mwyn gallu ymateb i'r cynnydd sylweddol mewn cyfeiriadau digartrefedd, a hynny am gyfnod dros dro o ddwy flynedd.<br><br>Nid yw niferoedd swyddogion y Tîm Atebion Tai wedi newid i gyfarch y gwaith ychwanegol yn sgil cynnydd yn nifer cyfeiriadau, ac felly nid yw'r Uned ar hyn o bryd yn cyflawni eu holl ddyletswyddau statudol. | 131,200 |

**ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO**

| AMGYLCHEDD | | | |
|---|---|---|---|
| Un tro 8 | Swyddog Prosiectau Cefn Gwlad | Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi sefydlu sawl rhaglen grant i gefnogi Awdurdodau Lleol i weithredu cynlluniau sy'n eu galluogi i uwchraddio hawliau tramwy, sefydlu llwybrau teithio llesol, annog gwirfoddoli a gwarchod bioamrywiaeth.<br><br>Yn ogystal mae camau gan y Cyngor i edrych ar ddyfodol twristiaeth yng Ngwynedd, dynodiad Safle Treftadaeth y Byd a pharatoi'r cynllun Newid Hinsawdd yn dangos yr angen i fanteisio ar gyfleoedd ariannu er mwyn uwchraddio a diogelu'n asedau naturiol.  Mae'r Adran wedi paratoi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (drafft) fydd yn adnabod blaenoriaethau ac anghenion adnoddau am y blynyddoedd nesaf ym maes mynediad i gefn gwlad.<br><br>Er mwyn sicrhau bod yr Adran yn manteisio'n llawn ar y cyfleon gwneir cais am adnodd staff ychwanegol am 3 mlynedd (£36,500 y flwyddyn) er mwyn cyflawni'r dyletswyddau canlynol :<br>- Gweithredu prosiectau ar draws feysydd gwaith y Gwasanaeth.<br>- Cynllunio ymlaen a chael pecyn o brosiectau yn barod.<br>- Cynorthwyo i baratoi ceisiadau a monitro cynnydd.<br>-  Gweithredu argymhellion y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (drafft) a chyfrannu i raglenni gwaith traws adrannol. | 36,500 |
| Un tro 9 | Cefnogi a chyfathrebu'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig | Cais i ariannu adnodd ychwanegol o fewn y Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu i helpu gwaith y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd. £60k o Ebrill 2022 hyd at Ebrill 2025.<br><br>Hefyd cais i gyfrannu 50% tuag swydd i gefnogi gwaith dydd i ddydd y Gwasanaeth (gwaith lle nad oes angen Cydlynydd i'w wneud). Nodir y bydd angen cytundeb gan Ynys Môn i gyfraniad 50%. £54,750 o  Ebrill 2022 hyd at Ebrill 2025. | 114,750 |

**ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Un tro 10 | Swyddogion Ymgysylltu Gwarchod y Cyhoedd (GyC) | Drwy fanteisio ar arian Grant y Gronfa Galedi a chefnogaeth y Cabinet, drwy arian bid, mae'r Adran wedi penodi 3 Swyddog Ymgysylltu GyC am gyfnod dros dro hyd at Ebrill 2022.<br><br>Mae'r swyddi hyn nid yn unig wedi gwella gwydnwch y gwasanaethau GyC ond hefyd wedi ymateb i'r gofyn am orfodaeth fwy llym a phresenoldeb gweladwy yn ein trefi a phentrefi; wedi ymateb ac archwilio i achosion positif o'r haint Cofid; a chynghori busnesau, adrannau eraill y Cyngor, Prifysgol Bangor a'r Colegau.<br><br>Bydd y gwariant yn sicrhau ein bod nid yn unig yn parhau i wella gwydnwch y gwasanaethau GyC, hwyluso'r gwaith allan yn y maes ond hefyd yn ein galluogi i roi rhaglen hyfforddi ar waith er mwyn datblygu swyddogion cymwys i'r dyfodol. Cais i ariannu swyddogion am gyfnod 3 mlynedd (£87,240 y flwyddyn). | 261,720 |
| Un tro 11 | Cynllun peilot ar gyfer cyflwyno parthau dynodedig i gartrefi modur wersylla dros nos. | Cynhaliwyd gwaith ymchwil ar y cyd gyda'r Adran Economi a Chymuned gyda'r nod o ddarganfod mwy am dueddiadau perchnogion cartrefi modur ac adnabod ffyrdd o gael gwell rheolaeth o'r modurwyr sydd ddim yn gwneud trefniadau o flaen llaw i wersylla dros nos mewn safleoedd carafanau pwrpasol. Derbyniwyd dros 8,800 ymateb i'r holiaduron.<br><br>Yn deillio o'r gwaith ymchwil, amlygwyd fod mwyafrif o drigolion lleol yn datgan mai treialu syniadau newydd e.e. cyfres o 'aires' mewn safleoedd mwy trefol gan ddefnyddio meysydd parcio cyfredol y Cyngor neu fusnesau preifat fyddai datrysiad mwyaf addas. Amlygwyd hefyd y byddent yn fodlon i'r Cyngor dreialu defnydd o feysydd parcio mewn lleoliadau mwy trefol a chaniatáu parcio dros nos am gyfnod penodol e.e. 48 awr.<br><br>Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar y 9 Tachwedd 2021, yn gofyn am gymeradwyaeth i dreialu'r defnydd o hyd at 6 safle parcio'r Cyngor (neu rhan o'r safle) ar gyfer cyfleuster i gartrefi modur aros dros nos. Mi fydd angen buddsoddiad cyfalaf ar gyfer gweithredu. | 100,000 |

## ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO

| ECONOMI A CHYMUNED | | | |
|---|---|---|---|
| Un tro 12 | Rhaglen Hybu Canol Trefi | Ariannu Rheolwr Prosiect a Hyfforddai Proffesiynol am 3 mlynedd, er mwyn cyflawni'r swyddogaethau canlynol:<br>-Datblygu a gweithredu prosiectau gwella a hybu canol trefi (yn cynnwys Cynllun Adfywio Dinas Bangor)<br>-Cefnogi ymdrechion trawsadrannol i ddatblygu blaenoriaeth yn deillio o'r Fframwaith Adfywio a'r 13 cynlluniau lleol cysylltiedig<br>-Targedu grantiau allanol ar gyfer prosiectau unigol<br><br>Gyda'r gwaith yn disgyn o fewn Blaenoriaeth Gwella 1 Cynllun y Cyngor. | 257,520 |
| Un tro 13 | Cynllun Eiddo Gwag | Ariannu Rheolwr Prosiect am 2 flynedd, er mwyn gweithredu ar y Cynllun Gweithredu Eiddo Gwag, sydd gydag amcanion:<br>-Gryfhau arferion presennol a mabwysiadu dull gweithredu gorfforaethol integredig<br>-Integreiddio a chefnogi ymdrechion ehangach adfywio a hyrwyddo canol trefi<br>-Adnabod a datblygu dulliau gweithredu a datrysiadau ar sail y gymuned i helpu ymdrin ag eiddo gwag.<br><br>Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys gweithgareddau sydd uwchlaw rhaglenni gwaith a chapasiti presennol yr Adrannau. Gyda'r gwaith yn disgyn o fewn Blaenoriaeth Gwella 1 Cynllun y Cyngor. | 111,680 |
| Un tro 14 | Fframwaith Adfywio Gwynedd | Mae'r Fframwaith Adfywio newydd wedi adnabod 13 ardal leol gyda'r bwriad o ddatblygu cynlluniau adfywio lleol ar eu cyfer. Yn sgil hyn, mae angen cynyddu capasiti o fewn y Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau ar gyfer cydlynu'r gwaith, ac i gefnogi'r cymunedau lleol. Mae hefyd cyfle i sefydlu swyddogion cyswllt o fewn y cymunedau i hwyluso cysylltiadau trawsadrannol.<br><br>Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth yn cynnwys rheolwr a 3 swyddog cefnogi cymunedau (gyda threfniadau am swyddog dros dro yn dod i ben mis Mawrth 2022).<br><br>Bydd y gwariant ychwanegol yn galluogi'r Gwasanaeth i benodi 2 Swyddog Cefnogi Cymunedau ychwanegol. Bwriad yw treialu pob aelod o'r tîm i ganolbwyntio ar 2 ardal yr un (gydag un swyddog yn canolbwyntio ar 3 ardal). | 240,210 |

## ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO

| | | | |
|---|---|---|---|
| Un tro 15 | Cynnal a Chadw Canolfannau Hamdden Byw'n Iach | Digolledu Cwmni Byw'n Iach am golled incwm yn sgil yr angen i gau pwll nofio Caernarfon am gyfnod o 8 wythnos er mwyn cynnal gwaith cynnal a chadw. Bwriedir cau'r pyllau nofio dros gyfnod yr haf 2022 er mwyn lleihau'r effaith ar wersi nofio a cholled incwm.<br><br>Yn sgil y gwaith i ddatblygu cae synthetig maint llawn newydd yng Nghanolfan Hamdden Arfon yn ystod 2022/23 ac ail-wynebu cae synthetig Llanrug. Mi fydd angen digolledu'r Cwmni am golled incwm yn sgil na fydd y caeau ar gael am gyfnod o 6 mis - cost o £4k. | 36,000 |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | | |
| Un tro 16 | Cylchdaith Ailgylchu Ychwanegol (Ardal Arfon) - Casglu Gwastraff | Yn sgil pandemig Covid gwelwyd cynnydd mewn lefelau ailgylchu yn y tair ardal, gyda’r cynnydd mwyaf yn ardal Arfon o 15% i’w gymharu â gwaelodlin 2019/20. Nid yw'n gwbl glir beth sydd wedi gyrru'r newid hwn, ond mae’r cynnydd mewn deunyddiau yn golygu nad yw’r gwasanaeth yn gallu ymdopi gyda’r gwaith efo’r un lefel o gerbydau / criw. Mae costau’r gylchdaith ychwanegol wedi cael ei adhawlio o Grant Caledi Llywodraeth Cymru eleni a’r llynedd.<br><br>Mae’r cynnydd yn y tunelledd ailgylchu yn ardal Arfon yn golygu fod gennym gerbyd a chriw ychwanegol allan bob diwrnod er mwyn ymdopi gyda’r gwaith. Bydd sicrwydd o arian ‘Un tro’ yn ein pontio am y flwyddyn ariannol nesaf tra byddwn yn dilyn dau ddarn o waith mawr yn y gwasanaeth sef Adolygiad Ffordd Gwynedd ac Adolygiad WRAP ar y cylchdeithiau cyfredol. Cais i ariannu criw ychwanegol am £83,190 (3 x FTE) a fflyd £58k. | 141,190 |
| Un tro 17 | Swyddog Prosiect Economi Gylchol | Ariannu swyddog a fyddai'n gyfrifol am lunio bidiau yn sgil anhawster i gyflwyno bidiau o fewn yr amserlen a osodir gan y Llywodraeth yn ogystal ag arwain prosiectau economi gylchol yr adran.<br><br>Enghraifft o gynllun yw darparwyd 11 hwb bwyd gydag offer megis oergelloedd a rhewgelloedd. O ganlyniad i’r prosiect hwn darparwyd bwyd i ystod eang o bobl o fewn eu cymunedau gan hefyd leihau gwastraff bwyd gan archfarchnadoedd.<br><br>*Swm y cais yn ddibynnol ar arfarniad swydd.* | 40,040 |

## ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO

| | | | |
|---|---|---|---|
| Un tro 18 | Swyddog Ymgysylltu a Newid Ymddygiad Ailgylchu | Ariannu swyddog fel prif bwynt cyswllt rhwng yr adran a’r cyhoedd. Byddai'r swydd yn cryfhau ein ffrydiau cyfathrebu, ac yn ein galluogi i rannu llwyddiannau’r adran drwy ddefnyddio dulliau creadigol cyfathrebu ac ymgysylltu mwyaf addas a diweddar.<br><br>Ar adegau rydym yn methu cyfleoedd i fod yn rhagweithiol drwy godi ymwybyddiaeth, dathlu llwyddiant ac ymateb i ymholiadau’r adran. Hefyd, mae gan yr Adran gynllun ‘Cryfhau Cyfathrebu ac Ymgysylltu’ a byddai'r swydd yn sicrhau cyflawni amcanion y cynllun.<br><br>*Swm y cais yn ddibynnol ar arfarniad swydd.* | 40,040 |
| **CYLLID A THECHNOLEG GWYBODAETH** | | | |
| Un tro 19 | Cynyddu capasiti TG y Cyngor i gefnogi Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd | Angen i gynyddu capasiti TG mewnol y Cyngor i ddarparu cefnogaeth i’r ysgolion (yn sgil gweithredu Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd). Adroddwyd i'r Cabinet 9fed o Dachwedd 2021. | 148,000 |
| **CEFNOGAETH GORFFORAETHOL** | | | |
| Un tro 20 | Datblygu Hunaniaith<br>(Prif Swyddog Hunaniaith, Swyddog Datblygu Digidol Hunaniaith ac Arian prosiect i gefnogi prosiectau digidol/Prosiect 15) | Mae wedi dod i’r amlwg nad yw’n amserol i Hunaniaith symud i fod yn endid annibynnol ar hyn o bryd oherwydd prinder grantiau a chostau uchel. Gwelwyd hefyd yr angen am brif swyddog llawn amser i arwain ar y gwaith yn y dyfodol.<br><br>Byddai’r gwariant ychwanegol hefyd o gymorth i Hunaniaith roi mwy o sylw i hybu a hyrwyddo’r Gymraeg i drigolion Gwynedd yn y maes digidol.<br><br>Cais i ariannu:<br>Prif Swyddog Hunaniaith (PS3) £53,060 x 4bl<br>Swyddog Datblygu Digidol Hunaniaith (S2) £36,490 x 2bl<br>Arian prosiect digidol/Prosiect 15, £10k ar gyfer blwyddyn 1 a £10k pellach ar gyfer blwyddyn 2. | 203,880 |

**ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Un tro 21 | Prosiect Iechyd a Diogelwch | Prosiect ar reolaeth iechyd a diogelwch effeithiol wedi ei adnabod yng Nghynllun y Cyngor 2022/23 fel blaenoriaeth gorfforaethol. Ceir adolygiad llawn o bob elfen o reolaeth iechyd a diogelwch o fewn y Cyngor. Ond yn sgil y gwaith ychwanegol mae'r Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant yn parhau i wynebu yn sgil pandemig Covid, mae risg nad oes capasiti digonol o fewn y tîm i yrru y prosiect yn ei flaen.<br><br>Cais i gyflogi Swyddog Prosiect (S3), dros dro er sicrhau adnodd dynodedig i yrru y prosiect yn ei flaen | 40,035 |
| Un tro 22 | Llesiant meddyliol gweithlu'r Cyngor | Mae straen yn parhau i fod y prif achos absenoldebau yn y gwaith o fewn y gweithlu. Mae cyfnod y pandemig wedi dod a straen ychwanegol ar sawl carfan o'r gweithlu am lu o wahanol resymau, boed yn staff gofal, staff addysg neu staff swyddfa sydd wedi bod yn gweithio o adref ers 18 mis. Mae angen gwella'r hyfforddiant sydd ar gael i bob rheolwr ar sut i reoli straen y gweithlu.<br><br>Mae hyn wedi bod ar raglen waith yr Uned Iechyd Galwedigaethol ers tro ond oherwydd y gwaith ychwanegol sylweddol yn sgil COVID a fod cyfeiriadau i'r Uned yn gyffredinol ar gynnydd, nid oes capasiti i wneud hynny ar hyn o bryd heb adnodd ychwanegol.<br><br>Cais i ariannu swyddog (PS1) am dri diwrnod yr wythnos yn 2022/23 ynghyd â chostau hyfforddi cysylltiedig. | 50,000 |
| Un tro 23 | Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth | Cais am arian i gyllido swydd Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth am ddwy flynedd ar raddfa S2 er mwyn sicrhau fod y gwasanaeth yn dygymod gyda'r gofynion newydd yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.<br><br>Mae galw am wasanaeth y swyddogion Democratiaeth wedi cynyddu dros y misoedd diwethaf wrth gynnal cyfarfodydd rhithiol. | 36,445 |

## ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO

| | | | |
|---|---|---|---|
| Un tro 24 | Ymgynghorydd Iaith | Cais i ariannu swydd Ymgynghorydd Iaith am gyfnod o 2 flynedd ar raddfa PS1 er mwyn galluogi'r tîm i roi sylw teilwng i asesiadau effaith ar yr iaith Gymraeg<br><br>Mae galw am wasanaeth ac arbenigedd cynllunio ieithyddol yr uned iaith wedi cynyddu ac yn debygol o gynyddu yn y misoedd nesaf (yn sgil llwyddiant enwebiad Safle Treftadaeth Byd, adolygu Cynllun Datblygu Lleol, cynnal asesiadau cydraddoldeb) ond nid oes digon o gapasiti yn y tîm presennol i ymdopi gyda'r gwaith.<br><br>Ar hyn o bryd allwn ni ddim rhoi sylwadau ar yr asesiadau/ datganiadau iaith a gyflwynir gyda cheisiadau cynllunio o fewn y cyfnod ymgynghori swyddogol o 20 diwrnod oherwydd gofynion eraill. | 94,480 |
| Un tro 25 | Addasiadau i swyddfeydd er mwyn cyfarch trefniadau gweithio newydd yn y dyfodol | Bydd trefniadau gweithio hybrid i'r dyfodol yn golygu y bydd defnydd staff o swyddfeydd yn newid. Tydi dyluniad y swyddfeydd ar hyn o bryd ddim yn addas ar gyfer galluogi'r trefniadau gweithio hybrid. Bydd angen addasiadau i'r adeilad e.e. creu gofod hot desks, mwy o ystafelloedd cyfarfod, gofod storio offer. Bydd angen buddsoddi mewn moderneiddio'r swyddfeydd e.e. offer TG ac ystafelloedd cyfarfod gyda'r dechnoleg i gynnal cyfarfodydd rhithiol. | 250,000 |
| **CYNGOR** | | | |
| Un tro 26 | Cynllun Hinsawdd | Cais ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd ar gyfer cynlluniau yn ymwneud a'r hinsawdd e.e. Adnewyddu loriau bin i fod yn rhai trydan, cynlluniau bioamrywiaeth, gwelliannau i adeiladau ayb. | 3,000,000 |
| **CYFANSWM BIDIAU REFENIW UN TRO** | | | **6,172,960** |